**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Iau, 16 Tachwedd 2023 am 2.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol canlynol yn bresennol:-**

Y Cynghorydd B Harris (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd J Brencher

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau

**8 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan a Mr A Owen-Hicks, Cyngor Celfyddydau Cymru.

**9 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant.

**10 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** Aelodau gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023.

**11 Cyllid Allanol sy'n cael ei ddefnyddio gan Wasanaeth y Celfyddydau yn ystod 2023/24**

Rhoddodd Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant ddiweddariad i'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol am gyllid allanol sy'n cael ei ddefnyddio gan Wasanaeth y Celfyddydau yn ystod 23/24 a'r cyllid fydd ar gael yn y dyfodol o ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Gronfa Ffyniant Bro.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad addysgiadol gan ganmol Gwasanaeth y Celfyddydau am sicrhau cyllid gwerth dros £1.28miliwn ar

gyfer Blwyddyn 2023/24 y Cyngor. Pan gafodd hi ei holi am gyfnod y grantiau, dywedodd y swyddog fod yr holl grantiau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, ar wahân i gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Gronfa Ffyniant Bro, yn cynrychioli grantiau sy'n cael eu dyfarnnu bob blwyddyn. Mae hyn yn arwain at lefelau o ansicrwydd bob blwyddyn.

Siaradodd Aelod yn gadarnhaol am y Gronfa Ffyniant Bro gan nodi y byddai'n rhoi hwb sylweddol i'r ardaloedd lleol. Gan gyfeirio at y cyllid sydd ar gael i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gofynnodd yr Aelod a oes proses fonitro ar waith i sicrhau bod y cyllid yma'n cael ei ddyrannu'n deg ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a nododd bwysigrwydd datblygu Ardal y Celfyddydau ym Mhontypridd.

Rhoddodd Pennaeth y Celfyddydau, Diwylliant a Gwasanaeth y Llyfrgelloedd wybod bod Llywodraeth y DU yn rhoi dyraniad i bob Awdurdod Lleol ac yna mae'r Cabinet yn mynd ati i gymeradwyo cynllun sy'n ymwneud â sut y bydd y cyllid yn cael ei wario. Esboniwyd bod swyddogion yn cynnal trafodaethau ar raddfa ehangach gyda'r diwydiannau creadigol er mwyn cynyddu a chryfhau sgiliau'r gweithlu yn RhCT a hynny drwy weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Er enghraifft, siaradodd y swyddog am ddarpariaeth Prifysgol De Cymru, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd a phwysleisiodd pa mor bwysig yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymestyn i ardal RhCT trwy'r ddarpariaeth addysg uwch. Roedd y swyddog hefyd wedi sôn am sgwrs ddiweddar gyda Phrifysgol De Cymru ynglŷn â gweithio'n well gyda'n gilydd.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden ar y cyfle i longyfarch swyddogion ar sicrhau'r cyllid sylweddol gan nodi y bydd trigolion RhCT yn elwa o'r cyllid yma. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi bod Theatrau RhCT wedi derbyn cynnig amodol o £153,065 y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf a siaradodd am yr arlwy amrywiol sydd ar gael yn y theatrau.

O ran cyllid Teuluoedd yn Gyntaf, nododd yr Aelod o'r Cabinet bwysigrwydd gweithio gyda phobl ifainc er mwyn meithrin eu hyder. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch iawn o glywed bod pobl ifainc o RCT, sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen Fortitude drwy Miwsig, bellach yn llwyddiannus ar y radio.

Adleisiodd y Cadeirydd y sylwadau blaenorol a siaradodd am y gwelliannau sylweddol sydd wedi'u cyflwyno i'r theatrau o ganlyniad i gyllid y Gronfa Ffyniant Bro. Siaradodd y Cadeirydd am raglen Metro De Cymru ac roedd yn gobeithio y byddai cynnydd yn nifer y trenau sy'n rhedeg gyda'r nos a'r bwriad i sefydlu cynllun parcio a theithio yn cynyddu'r galw yn y theatrau a'u gwneud nhw'n fwy hygyrch i unigolion sy'n byw y tu hwnt i ardal RhCT.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i roi gwybod i'r Grŵp Llywio fod gan Ysgol Gelf Caerdydd ddiddordeb yn hanes RhCT; bydd arddangosfeydd yn ymwneud â therfysgoedd Tonypandy yn cael eu cynnal yn Llyfrgelloedd Tonypandy a Threorci. Siaradodd y Cadeirydd am hanes RhCT ac roedd e'n falch bod yr hanes yma'n cael ei chydnabod y tu hwnt i'r Fwrdeistref.

**PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol:

1. Trafod cynnwys yr adroddiad a gwneud sylwadau ar yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

## 12 Y Newyddion Diweddaraf ynglŷn â Gwasanaeth y Llyfrgelloedd

Rhannodd Blaen Swyddog y Llyfrgelloedd ddiweddariad ar gyflawniad Gwasanaeth y Llyfrgelloedd y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, nifer yr ymwelwyr a lefelau gweithgarwch.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am y diweddariad manwl gan adleisio casgliad yr adroddiad, sy'n nodi: *'RCT council is proud of its Library Service and the manner in which it adapted its services during the Covid pandemic and the hard work it's staff have carried out to return service delivery to pre-pandemic levels after the lifting of Covid restrictions'.*

Siaradodd y Cadeirydd am amrywiaeth y llyfrgelloedd yn RhCT, sydd i'w gweld yn yr adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i Aelodau. Roedd y Cadeirydd wedi canmol amrywiaeth eang y mentrau sy'n cael eu cynnal yn y llyfrgelloedd, megis y Caffi Dementia, yn rhan o ymgyrch Treorci i ddod yn dref sy'n deall dementia. Roedd y Cadeirydd wedi canmol yr ystod eang o adnoddau sydd ar gael yn y llyfrgelloedd a'r e-lyfrgell.

O ran yr adborth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, roedd y Cadeirydd yn fodlon gyda lefel y gwaith ymgysylltu sydd wedi'i gynnal gan bwysleisio pa mor bwysig yw hi i blant a phobl ifainc ddod yn rhan o bethau a hynny i sicrhau bod hanes RhCT yn fyw.

Cyn iddo ddod â'r drafodaeth i ben, roedd y Cadeirydd yn cydnabod bod pob Awdurdod Lleol yn wynebu amser heriol ond pwysleisiodd bwysigrwydd y gwasanaeth gwerthfawr yma.

Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden y sylwadau am gyfleusterau bywiog y llyfrgelloedd a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch a chanmol y staff sy'n gweithio yn y llyfrgelloedd.

Gofynnodd Aelod a fydd y llyfrgelloedd yn chwarae rhan yn Eisteddfod RhCT yn 2024. Rhoddodd y swyddog wybod y bydd elfennau o gasgliad hanes lleol y Llyfrgelloedd yn cael eu harddangos yn ein llyfrgelloedd yn ystod yr Eisteddfod a bydd pob llyfrgell yn cael ei defnyddio i rannu'r gwaith ar hyd a lled RhCT a sicrhau bod pob ardal leol yn rhan o'r llwyddiant.

Holodd Aelod pa waith sy'n cael ei wneud i ddenu plant a phobl ifainc i'r llyfrgelloedd ac a yw llais y disgybl yn dylanwadu ar y detholiad o lyfrau sydd ar gael yn y llyfrgelloedd. Rhoddodd y Swyddog sicrwydd fod y gwasanaeth yn ymgysylltu â charfan Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor ac yn ymweld ag ysgolion os yw'n bosibl. O ran gofyn i blant pa lyfrau hoffen nhw eu gweld yn y llyfrgelloedd, rhoddodd y swyddog wybod nad oes proses ar waith ond gan amlaf, caiff unrhyw lyfrau y mae unigolyn yn gofyn amdanyn nhw eu prynu, boed hynny'n gais gan oedolyn neu blentyn. Rhoddodd y swyddog wybod y bydd yn gwrando ar argymhelliad yr Aelod.

**PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol:

1. Trafod cynnwys yr adroddiad a nodi'r wybodaeth sydd wedi'i darparu.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm**

**Y Cynghorydd B Harris**
**Cadeirydd.**